12. Cwynion a Chwythu'r Chwiban

Mae'r Bennod hon yn ystyried:

- ymdrin â chwynion mewn ysgolion;
- 'chwythu'r chwiban' mewn ysgolion.

Cefndir

1. Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraethu sicrhau bod ganddynt weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â phob agwedd ar yr ysgol ac ar gyfer unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol y mae'r ysgol yn eu darparu. Mae'r gyfraith hefyd yn mynnu bod y weithdrefn yn cael cyhoeddusrwydd.

2. Chwythu'r chwiban yw'r dull y gall gweithwyr cyflogedig ei ddefnyddio i fynegi pryderon i drydydd parti, yn aml gyda'u cyflogwyr.

Ymdrin â Chwynion

3. Os gwneir cwyn yn erbyn ysgol, corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cwynion yn cael y sylw priodol.

4. Dylai ysgolion annog rhieni, staff, disgyblion ac aelodau'r gymuned i ddatrys cwynion yn gyflym trwy siarad â'r unigolyn perthnasol yn yr ysgol. Fel arfer dylai cwynion gael eu cyflwyno i'r athro dosbarth yn gyntaf ac wedyn, os oes angen, i'r pennaeth. Bydd y dull hwn yn datrys y rhan fwyaf o bryderon a chwynion.

5. Os na all y pennaeth ddatrys y gŵyn, neu os mai'r pennaeth yw testun y gŵyn, gall y corff llywodraethu dderbyn y gŵyn. Os gwneir cwyn yn erbyn yr ysgol, corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwynion yn cael y sylw priodol.

6. Cynghorir llywodraethwyr unigol i beidio â cheisio datrys materion ond i ddilyn gweithdrefnau cwynion yr ysgol. Felly, os bydd unrhyw unigolyn yn cysylltu â llywodraethwr ynglŷn â phryder neu gŵyn dylai'r llywodraethwr gyfeirio'r unigolyn sydd â'r pryder neu'r gŵyn at weithdrefn gwyno'r corff llywodraethu.

7. Dylai'r corff llywodraethu wneud pob ymdrech i sicrhau bod unrhyw un sydd am wneud cwyn yn cael ei drin yn deg ac yn arbennig, yn cael cyfle i ddatgan ei achos.

8. Dylai'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r rhesymau drostynt gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r sawl sy'n cwyno. Da o beth yw pennu amserlen ar gyfer ymdrin â chwynion fel nad yw'r broses yn cymryd gormod o amser. Gallwch gael cyngor ar sut i ymdrin â chwynion gan yr ALl.

Dogfennau Cyfarwyddyd

9. Adeg cyhoeddi'r canllaw hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ar ddogfen gyfarwyddyd ddiwygiedig ar gwynion ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a disgwylir iddi fod ar gael ddechrau haf 2009. Bydd y ddogfen yn darparu cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ysgolion ar ddatblygu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion gan rieni, aelodau o staff, aelodau'r gymuned leol, llywodraethwyr, disgyblion a phobl eraill, a bydd yn cynnwys polisi enghreifftiol ar ymdrin â chwynion y bydd cyrff llywodraethu o bosib am ei fabwysiadu. Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn rhoi sylw i'r angen i ddatblygu a mabwysiadu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â disgyblion (disgybl sy'n cwyno, yn dyst neu'n destun y gŵyn).

Beth yw Chwythu'r Chwiban?

10. Chwythu'r chwiban yw'r dull y gall gweithwyr cyflogedig ei ddefnyddio i fynegi pryderon i drydydd parti, yn aml gyda'u cyflogwyr.

11. Mewn ysgol a gynhelir, dylai aelodau o staff deimlo y gallant fynegi pryderon am ymddygiad neu arfer yn yr ysgol a allai fod yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesegol neu sy'n gyfystyr â chamymddygiad, a'u bod yn gallu gwneud hynny heb ofni cael eu herlid ac yn hyderus y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael y sylw priodol.

12. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi amlinellu nifer o argymhellion yn ei adroddiad ar Ymchwiliad Clywch, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2004.

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad, mewn ymateb i'r argymhellion, wedi ymrwymo i ddosbarthu canllawiau i gyrff llywodraethu i'w cynorthwyo i roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer staff ysgolion.

14. Mae cylchlythyr 036/2007 Llywodraeth y Cynulliad sy'n dwyn y teitl ''Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol - Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglyn â Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Chwythu'r Chwiban Enghreifftiol', yn rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu ar:

- y cyd-destun cyfreithiol;
- yr hyn yr ystyrir yn chwythu'r chwiban;
- nod, cwmpas a chyd-destun gweithdrefn chwythu'r chwiban, gan gynnwys sut y gall proses ar gyfer mynegi ac ymdrin â phryder weithio orau; a
- polisi chwythu'r chwiban enghreifftiol.

15. Mae gweithwyr cyflogedig sy'n chwythu'r chwiban yn cael eu diogelu'n statudol gan **Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("PIDA")**, sy'n eu diogelu rhag erledigaeth os byddant yn gwneud datgeliad wedi'i ddiogelu o fewn ystyr y PIDA. Mae gwybodaeth am hyn yn y cylchlythyr Canllawiau.

16. Yr ALl yw cyflogwr cyfreithiol staff mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, ond cyfrifoldeb y corff llywodraethu, os oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig, yw rheoli ymddygiad a disgyblaeth mewn perthynas â staff yr ysgolion hynny. Yn gyffredinol, rhaid trin cyrff llywodraethu ysgolion fel cyflogwyr staff at ddibenion deddf cyflogaeth. Os nad oes gan ysgol o'r fath gyllideb ddirprwyedig, cyfrifoldeb yr ALl yw materion staffio/cyflogaeth. Mewn ysgolion sefydledig, arbennig sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu yw cyflogwr y rhan fwyaf o'r staff.

VA F FS

17. Mae'r cyfrifoldeb am sefydlu gweithdrefn chwythu'r chwiban yn fater i bob cyflogwr. O ran ysgolion cymunedol, arbennig cymunedol, gwirfoddol a reolir, gwirfoddol a gynorthwyir, sefydledig ac arbennig sefydledig gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, y corff llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb.

VA F FS

18. Ar wahân i ddarpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â chwythu'r chwiban, dylai cyrff llywodraethu geisio sefydlu diwylliant yn eu hysgolion lle gall aelodau staff fynegi eu pryderon, gan deimlo'n hyderus y bydd pryderon o'r fath yn cael eu cymryd o ddifrif, yn cael eu hymchwilio ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb. O ganlyniad, ni ddylai'r ffaith bod gweithdrefn chwythu'r chwiban ar gael mewn ysgolion, mewn unrhyw ffordd, leihau ymrwymiad corff llywodraethu i feithrin awyrgylch o gydweithrediad a bod yn agored yn yr ysgol fel bo'r holl aelodau staff yn gallu trafod anawsterau a phroblemau o bob math gyda'r rheolwyr.

19. Ni ddylai'r ffaith bod gweithdrefn chwythu'r chwiban ar gael, mewn unrhyw ffordd, leihau ymrwymiad corff llywodraethu i ymdrin â phryder a fynegir gan unigolion y tu allan i staff ysgol h.y. rhieni, disgyblion, llywodraethwyr ac ati o dan ei weithdrefnau cwynion neu weithdrefnau perthnasol.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 1996
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Addysg 2002
Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006
Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Canllawiau

Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban a Pholisi Enghreifftiol – Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglŷn â Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Chwythu'r Chwiban Enghreifftiol; Cylchlythyr 036/2007

Canllawiau sydd mewn grym ar hyn o bryd – ond sydd i'w disodi gan y canllawiau newydd y cyfeirir atynt yn 9, pan gânt eu cyhoedi

Cylchlythyr Rhif: 03/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: "Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion" (cyhoeddwyd 21 Mai 2004)

Cylchlythyr Rhif: 39/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglŷn â Gweithdrefnau Cwyno yn ymwneud â Disgyblion." (cyhoeddwyd 25 Hydref 2006)

Dogfennau Perthnasol

Ymchwiliad Clywch - Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol, Mehefin 2004

Cylchlythyr 45/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion

Cylchlythyr Rhif: 23/2003 Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio" (cyhoeddwyd Medi 2003)

Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr 12/2007)

Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref 2001)